TEITHIAU ELFYN THOMAS TOURS

10-15 Parc Diwydiannol Mona,
Gwalchmai, Ynys Môn, LL65 4RJ.

☎: 01407 731080

Ebost/Email: info@elfynthomas.com

TAITH TRYSORAU HANES BRO'R EISTEDDFOD YNG NGHWMNI GARI WYN

DYDD MAWRTH 6 AWST
MAN CYCHWYN - PRIF FYNEDFA EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLANRWST
10:00yb ac yn ôl erbyn 2:15yp
PRIS £15

I ARCHEBU SEDD FFONIWCH 01407 731080 / 0745 0223332

Cyflwyniad

Taith 4 awr yng nghwmni Gari Wyn yn ymweld a rhai o fannau a rhyfeddodau hanesyddol Bro yr Eisteddfod. O wastadedd llawr Dyffryn Conwy hyd at ucheldir Uwchaled a Chwm Eithin. Hanes rhai o'r bobol mwyaf allweddol yn natblygiad Y Gymru Gymraeg gyfoes.

1. Gweithiau pensaerniol Owen Gethin Jones y bardd a'r hanesydd a'r gŵr busnes rhyfeddol o Benmachno.Ardal Betws y Coed.

2. Campweithiau gweithwyr ffordd yr A5 a'r nafis Cymreig. Stori gudd adeiladu pont Waterloo....Golwg ar bont fwa ryfeddol Rhydlanfair ac olion gwaith Twm o'r Nant.

2. Eglwys Ysbyty Ifan. Rhys ap Maredudd llumanwr Bosworth1485. Chwifiwr cyntaf ein baner genedlaethol fodern. Teulu y Prysiaid {Tomos Prys y bardd a'r morleidr} a'u heffaith ar Ogledd Cymru.

3. Pentrefoelas. Adfeilion cartref John Roberts y Romani Cymraeg cyntaf a dechreuad effaith teulu Abram Wood ar ddiwylliant Cymru. Bydd cyfle i gael cinio yn y Foelas os y dymunwch (cost ychwanegol).

4. Jac Glan y Gors, Cefn Brith. Y gwir radical Cymreig cyntaf. Effaith Gwyneddigion Llundain arnom ni heddiw .Dechreuad yr Eisteddfod fodern. Fferm Ty'n y Graig. Cartref un o adeiladwyr mawr Lerpwl.

5. O sgwar Cerrigydrudion ymlaen i Eglwys Llanfihangel Glyn Myfyr at garreg bedd Owain Myfyr. Trafod ei ran allweddol yng nghreadigaeth llenyddiaeth fodern Cymraeg. {y person a roddodd hygrededd i Iolo Morgannwg?}. Nôl ar hyd yr A5 i Lanrwst erbyn 2:15yp